

helplu

helpforce

CYMDEITHION GWIRFODDOL MEWN GOFAL DIWEDD OES: STORI BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN

‘Cafwyd ymateb enfawr yn yr alwad gyntaf am wirfoddolwyr. Roedd hi’n siomedig fod hyn wedi digwydd ar yr un pryd â’r pandemig. Gwnaethom ni gyflawni’r hyfforddiant cyntaf cyn y cyfnod clo – wyneb yn wyneb a chan gadw pellter cymdeithasol, ac aeth yn dda. Gwelsom bwysigrwydd hyfforddiant wyneb yn wyneb i wirfoddolwyr diwedd oes: gall gwirfoddolwyr sy’n dewis cefnogi gofal diwedd oes fod â phrofiadau personol y cyffyrddir â nhw yn ystod yr hyfforddiant a gallwn ni gadw llygad ar iaith y corff ac emosiynau’n haws wyneb yn wyneb. Mae’r sesiwn yn rhyngweithiol iawn ac yn ennyn llawer o drafod. Cafodd yr hyfforddiant gorfodol craidd ei gyflwyno o bell, fel y mae o hyd, ac mae’n gweithio’n dda. Cafodd yr holl brosesau recriwtio eraill a’r sgyrsiau cychwynnol eu cynnal o bell tan yn gynharach y flwyddyn hon pan allwyd dychwelyd i’w gwneud wyneb yn wyneb.

Serch rhwystrau enfawr, roedd ffyrdd ymlaen. Arafodd y cynnydd, ond ni wnaeth stopio!

Gwnaethom ni ddefnyddio’r “Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu” ar gyfer gwirfoddolwyr (yn ogystal â’r staff). Gwnaeth yr asesiad risg cychwynnol ddiystyru gwirfoddolwyr hyn a

chreodd hyn siomedigaeth ac ymdeimlad o annhegwch. Ar ôl cysylltu â'n tîm Iechyd Galwedigaethol ym mis Ebrill ynghylch y posibilrwydd o alluogi gwirfoddolwyr hŷn i ddychwelyd, bu modd i ni ddefnyddio asesiad risg Prifysgol Glasgow, 'Dychwelyd i waith yn y map ffordd allan o gyfnod clo Covid 19', sy'n ystyried nifer yr achosion o Covid-19 yn y gymuned, statws brechiadau, yr amgylchedd a'r rôl wirfoddoli yr ymgwymerir â hi. Gwnaeth hyn ein galluogi i gael y gwirfoddolwyr yn ôl – ond mae rhai wedi gorfod rhoi'r gorau iddi eto gan fod nifer yr achosion o Covid-19 wedi cynyddu.

Mae'n cymryd amser i staff gyfarwyddo â phrosesau asesu risg ac i gyflwyno gwirfoddolwyr i wardiau. Bob tro y gwnaethom ni gyflwyno gwirfoddolwr newydd neu un a oedd yn dychwelyd, fe wnaethom ni gynnal sesiwn gynefino a oedd yn benodol i'r ward a hyfforddiant ar gyfarpar diogelu personol (PPE) er mwyn sicrhau bod gan y gwirfoddolwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau cyfredol ar y wardiau a'u bod yn gyfarwydd â nhw.

Mae 15 ohonynt ar waith a 46 ohonynt yn barod i ddechrau, ond mae cael atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi bod yn broses araf. Roedd llawer o'r gwirfoddolwyr eisoes yn gyfeillachwyr ar y wardiau, a oedd yn golygu y gallent ddechrau sgwrsio â chleifion mewn modd pendant tan fyddai atgyfeiriad yn cael ei wneud am ymweliad gofal diwedd oes.

Ein cam nesaf felly yw adeiladu ar y dull gweithredu hwn, gyda Chymdeithion Diwedd Oes gwirfoddol o bosibl yn dod yn gyfeillachwyr cyffredinol yn gyntaf ar y wardiau (os mai dyma'r hyn byddant yn cytuno arno), lle y gallent fanteisio ar gyfleoedd i ymweld â chleifion ar ddiwedd eu hoes. Gallai'r cleifion hyn wedyn gael eu hatgyfeirio am gymorth pellach gan y tîm gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, nid yw pob Cydymaith Diwedd Oes eisiau bod yn gyfeillachwr, ac rydym ni'n parchu hynny. Mae cofnodi data o atgyfeiriadau manteisgar yn her ychwanegol.

Hoffem gynnig y cyfle i'r holl gyfeillachwyr gael hyfforddiant gofal diwedd oes ychwanegol. Hoffem hefyd gynnig yr hyfforddiant y mae ein hyfforddwr sgiliau clinigol yn ei roi i weithwyr proffesiynol, myfyrwyr ac eraill er mwyn creu gofal mwy tosturiol ar draws y gwasanaeth iechyd yn gyffredinol.

Mae gofal diwedd oes gwirfoddol wedi'i ymwreiddio bellach o fewn ein proffiliau gwirfoddoli - mae wedi dod yn 'fusnes arferol'. Diolch i Helpu am yr holl gymorth y maen nhw wedi'i roi i ni.'

Claire Jordan, Uwch-nyrs, Gofal sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Mis Hydref 2021